*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 2ZA yn Rheoliadau 2015. Mae rheoliad 2ZA yn nodi'r broses ar gyfer diweddaru'r ffioedd sy'n daladwy o dan reoliad newydd 2ZA(4).

Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi dogfen ffioedd ar eu gwefan yn manylu ar swm y ffioedd sy'n daladwy o dan reoliad 2ZA(4). Rhaid i'r ddogfen gynnwys gwybodaeth am y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd, swm y ffioedd sy'n daladwy o dan baragraff 4, y cyfnod amser y mae newidiadau i ffioedd yn ymwneud ag ef ac amseriad ac amlder cyhoeddi'r ddogfen ffioedd y mae'n ofynnol ei chyhoeddi dim llai na 4 wythnos cyn iddi ddod i rym.

Rhaid i'r ddogfen ffioedd hefyd ddarparu gwybodaeth am ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd, y cyfnod amser y mae newidiadau arfaethedig i ffioedd yn ymwneud ag ef ac amseriad ac amlder cyhoeddi'r ddogfen ffioedd.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 i'r perwyl bod y symiau ariannol a

nodir yn rheoliad 3 i gael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad newydd 2ZA.

Mae paragraff (2)(c) o reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dileu paragraff (6) o reoliad 11 o Reoliadau 2015 am fod darpariaeth i'r un perwyl wedi ei darparu ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwnnw. Mae paragraff (2)(a) a (d) o reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar hepgor rheoliad 11(6) o Reoliadau 2015.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraffau 1 a 10 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2015, gan ostwng y trothwyon ffioedd amrywiadwy ar gyfer datblygiad preswyl.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â cheisiadau, diwygiadau ac ymweliadau safle sy'n ymwneud â'r darpariaethau a restrir yn is-baragraffau (a) i (j) o reoliad newydd 2ZA(4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | **** |
| *Yn dod i rym* | *20 Hydref 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 303(1), (2), (5)(c) a 333(2A) a (2B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 333(3E) o'r Ddeddf honno(**2**), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru(**3**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 1990 (p. 8). Amnewidiwyd adran 303 gan adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn. Ystyr "prescribed" yw wedi ei ragnodi drwy reoliadau; gweler adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gweinidogion Cymru yw'r "appropriate authority" o ran Cymru; gweler adran 303(7)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mewnosodwyd adran 333(2A) gan adran 118(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5), a pharagraffau 1 a 14 o Atodlen 6 iddi. Mewnosodwyd adran 333(2B) gan adran 130(1)(a) o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55).

(**2**) Mewnosodwyd adran 333(3E) gan baragraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4).

(**3**) Mae'r cyfeiriadau yn adran 333(3E) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Hydref 2025.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2015" yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015(**1**).

**Cyhoeddi dogfen ffioedd**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y man priodol, mewnosoder "ystyr "dogfen ffioedd" ("*fee document*") yw'r ddogfen ffioedd y cyfeirir ati yn rheoliad 2ZA(2);".

(3) Ar ôl rheoliad 2 (dehongli) mewnosoder—

"**Cyhoeddi dogfen ffioedd**

**2ZA.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) llunio a chyhoeddi dogfen ffioedd ar wefan a gynhelir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru; a

(b) rhoi copïau caled o'r ddogfen ffioedd ar gael ar gais.

(2) Rhaid i'r ddogfen ffioedd nodi—

(a) y dull a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd;

(b) swm y ffioedd sy'n daladwy o dan baragraff 4;

(c) y cyfnod amser sy'n ymwneud ag unrhyw newidiadau i ffioedd;

(d) yn ddarostyngedig i baragraff 3, amseriad ac amlder cyhoeddi'r ddogfen ffioedd;

(e) gofynion ymgynghori yn ymwneud ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (c) a (d); ac

(f) y dyddiad y daw'r ddogfen ffioedd i rym.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r ddogfen ffioedd ar eu gwefan dim llai na 4 wythnos cyn y diwrnod y daw'r ddogfen ffioedd i rym.

---

(**1**) O.S. 2015/1522 (Cy. 179) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/62 (Cy. 32), O.S. 2017/528 (Cy. 111), O.S. 2019/283 (Cy. 65) ac O.S. 2020/745 (Cy. 168).

(4) Y ffioedd sy'n daladwy, fel y'i crybwyllir ym mharagraff 2(b), yw'r ffioedd sy'n daladwy, gan gynnwys unrhyw ffioedd ychwanegol, o dan y darpariaethau a restrir yn is-baragraffau (a) i (j) isod—

(a) rheoliad 2A(2) a Rhan 1 o Atodlen 4 (ffioedd taladwy o dan reoliad 2A), paragraff 2 a Rhan 2 o Atodlen 4 (ffioedd mewn cysylltiad ag archiadau am wasanaethau cyn ymgeisio);

(b) rheoliad 3(2) (ffioedd am geisiadau cynllunio) a Rhan 1 o Atodlen 1 (ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio neu am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl), paragraffau 3(1), 4(2) a (3), 5, 5A, 6(b), 7, 13(2)(a) a (b) a Rhan 2 o Atodlen 1;

(c) rheoliad 11(3)(b) (ffioedd am geisiadau am dystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon);

(d) rheoliad 12(2) ac Atodlen 2 (ffioedd am hysbysebion graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau am ganiatâd i arddangos hysbysebion), paragraffau 1, 2 a 3;

(e) rheoliad 13(1)(a) a (b) (ffioedd am geisiadau penodol o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir);

(f) rheoliad 14(4) a (5) (ffioedd mewn cysylltiad â monitro safleoedd mwyngloddio a thirlenwi);

(g) rheoliad 15(1)(a) a (b) (ffioedd am geisiadau a wneir o dan amod cynllunio) a Rhan 2 o Atodlen 1 (graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaed neu y tybir iddynt gael eu gwneud);

(h) rheoliad 16(1)(a) a (b) (ffioedd am geisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio);

(i) rheoliad 16A(3) (ffioedd am ddiwygiadau ar ôl cyflwyno, i geisiadau am ddatblygiad mawr);

(j) rheoliad 16B(2) (ffioedd am geisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol)."

**Diwygio ffioedd**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio ymhellach fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11 (ffioedd am geisiadau am dystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon)—

(a) ym mharagraff 3, yn lle “Yn ddarostyngedig i baragraffau (6) i (9)” rhodder “Yn ddarostyngedig i baragraffau (7) i (9)”;

(b) ym mharagraff 3(b), yn lle “£230” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(c) hepgorer paragraff 6;

(d) ym mharagraff 9, yn lle “yn unol â pharagraffau (3), (6) a (7)”, rhodder “yn unol â pharagraffau (3) a (7)”.

(3) Ym mharagraff 1 o reoliad 13 (ffioedd am geisiadau penodol o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “£100” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “£460” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(4) Yn rheoliad 14 (ffioedd mewn cysylltiad â monitro safleoedd mwyngloddio a thirlenwi)—

(a) ym mharagraff 4, yn lle “yw £400” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(b) ym mharagraff 5, yn lle “yw £135” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(5) Ym mharagraff 1 o reoliad 15 (ffioedd am geisiadau a wneir o dan amod cynllunio)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “£35” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “£115” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(6) Ym mharagraff 1 o reoliad 16 (ffioedd am geisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “£35” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “£115” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(7) Ym mharagraff 3 o reoliad 16A (ffioedd am ddiwygiadau ar ôl cyflwyno, i geisiadau am ddatblygiad mawr), yn lle “yw £230” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(8) Ym mharagraff 2 o reoliad 16B (ffioedd am geisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol), yn lle “yw £230” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(9) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio neu am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl)—

(a) ym mharagraff 3(1), yn lle “yw £460” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(b) ym mharagraff 4(2), yn lle “yw £460” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(c) ym mharagraff 4(3), yn lle “yw £460” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(d) ym mharagraff 5, yn lle “yw £230” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(e) ym mharagraff 5A(3)—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle “£190” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£115” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(f) ym mharagraff 6(b), yn lle “£230” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(g) ym mharagraff 7, yn lle “yw £230” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(h) ym mharagraff 13(2)(a), yn lle “£460” rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion

Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(i) ym mharagraff 13(2)(b)—

(i) yn lle “£11,500”, rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(ii) yn lle “£120 ychwanegol”, rhodder “swm ychwanegol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(iii) yn lle “o £150,000”, rhodder “o’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(10) Yn Rhan 2 o Atodlen 1 (graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaed neu y tybir iddynt gael eu gwneud), yng ngholofn y tabl o dan y pennawd “ffi daladwy”—

(a) yn lle unrhyw swm, ac eithrio swm a ddisgrifir yn is-baragraff (b) neu (c), rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(b) yn lle unrhyw swm a ddilynir gan y gair “ychwanegol”, ynghyd â’r gair “ychwanegol” ei hun, rhodder “swm ychwanegol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”;

(c) yn lle unrhyw swm sy’n dilyn y geiriau “cyfanswm uchaf o”, ynghyd â’r gair “o” ei hun, rhodder “o’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(11) Yn Atodlen 2 (ffioedd am hysbysebion graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau am ganiatâd i arddangos hysbysebion), yng ngholofn y tabl o dan y pennawd “ffi daladwy”, yn lle unrhyw ffi o swm a bennir rhodder “Y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(12) Yn Rhan 1 o Atodlen 4 (ffioedd taladwy o dan reoliad 2A), ym mharagraff 2, yn lle “yw £25” rhodder “yw’r swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

(13) Yn Rhan 2 o Atodlen 4 (ffioedd mewn cysylltiad ag archiadau am wasanaethau cyn ymgeisio) yng ngholofn y tabl o dan y pennawd “ffi daladwy”, yn lle unrhyw ffi o swm a bennir rhodder “y swm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 2ZA (cyhoeddi dogfen ffioedd)”.

**Diwygio trothwyon ffioedd amrywiadwy ar gyfer datblygiad preswyl**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio ymhellach fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 2 o Atodlen 1 (graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaed neu y tybir iddynt gael eu gwneud)—

(a) ym mharagraff 1(a) yng ngholofn y tabl o dan y pennawd "ffi daladwy", yn lle "fwy na 2.5 hectar" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "fwy nag 1.5 hectar" ac yn lle "dros 2.5 hectar" rhodder "dros 1.5 hectar";

(b) ym mharagraffau 1(b) a 10(a) a (b), yng ngholofn y tabl o dan y pennawd "ffi daladwy", yn lle pob cyfeiriad at "50" rhodder "25".

**Darpariaeth Drosiannol**

**5.**—(1) Nid yw rheoliadau 3 na 4 yn gymwys i geisiadau, diwygiadau ac ymweliadau safle sy'n ymwneud â'r darpariaethau hynny a restrir yn is-baragraffau (a) i (j) o reoliad 2ZA(4), a wnaed neu y tybir iddynt gael eu gwneud cyn y dyddiad y daw'r ddogfen ffioedd y cyfeirir ati yn rheoliad 2ZA(2) i rym yn unol â rheoliad 2ZA(2)(f).

(2) Yn y rheoliad hwn mae i "ymweliad safle" yr ystyr a roddir yn adran 2(1) o Reoliadau 2015.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad